

Y Tuduriaid a'r Stiwartiaid

I ddechrau:

- Beth rydym yn ei wybod eisoes am y Tuduriaid a'r Stiwartiaid?

Gall disgyblion fynd dros y syniadau y maent eisoes wedi'u dysgu yn ystod gwersi neu bethau y gwyddant o bosib yn seiliedig ar eu gwybodaeth eu hunain, er enghraifft am frenhinoedd a breninesau enwog.

Cefndir

- Pa bryd oedd y Tuduriaid a'r Stiwartiaid yn teyrnasu?

Tuduriaid – 1485 i 1603

Stiwartiaid – 1603 i 1714

- Digwyddodd llawer yn ystod teyrnasiad y Tuduriaid a'r Stiwartiaid. Hwn oedd un o'r adegau mwyaf cyffrous yn hanes Gwledydd Prydain. A allwch chi enwi unrhyw ddigwyddiadau tyngedfennol?
 - Harri VIII a'i ysgariad
 - Armada Sbaen, 1588
 - Guto Ffowc a'r Cynllwyn Powdr Gwn, 1605
 - Dienyddio'r Brenin Siarl I, 1649
 - Rhyfel Cartref Lloegr
 - Adferiad y Brenin, 1660
 - Y Pla, 1665
 - Tân Mawr Llundain, 1666

Y Tuduriaid (sleidiau 2-10)

Rydym am ddechrau drwy edrych ar deyrnasiad y Tuduriaid.

Bu'r Tuduriaid yn teyrnasu am 118 o flynyddoedd o 1485 hyd 1603.

- A ydych chi'n gwybod pam fod y cyfnod yn cael ei alw yn gyfnod Tuduraidd?

Mae wedi ei enwi ar ôl teulu'r Tuduriaid.

Sleid 2 – Y brenin Tuduraidd cyntaf oedd Harri VII. Ei enw oedd Harri Tudur.

- A ydych chi'n gwybod o le'r oedd Harri Tudur yn dod?

Roedd yn Gymro a chafodd ei eni yng Nghastell Penfro. Roedd ei daid o Ynys Môn yng Ngogledd Cymru. Daeth yn Frenin drwy drechu Richard III ym Mrwydr Bosworth yn 1485.

- Roedd gan Harri VII fab adnabyddus iawn. A ydych chi'n gwybod pwy oedd e?

Harri VIII

- Ydych chi'n gwybod pwy yw hwn?

Sleid 3 – Dyma Harri VIII, un o'r ffigyrau mwyaf adnabyddus yn hanes Gwledydd Prydain.

Dyma ddarlun o Harri VIII ar ei orsedd o ddogfen sydd wedi ei ddyddio yn 1545. Yn y ddogfen, mae Harri VIII yn gwerthu Priordy Ewenni a thiroedd eraill mynachlog San Pedr, Caerloyw, ym Morgannwg i Sir Edward Carne ar daliad o £727 6s 4c.

Mae Harri VIII yn gwerthu tiroedd sydd yn eiddo i fynachlogydd. Rydym yn galw hyn yn Ddiddymiad y Mynachlogydd. Ymwahanodd o'r Eglwys Gatholig yn Rhufain am ei fod yn awyddus i ysgaru ei wraig gyntaf Catherine o Aragon a phriodi Anne Boleyn. Fe gaeodd y mynachlogydd er mwyn cael eu cyfoeth a daeth yn ben ar Eglwys Loegr, eglwys Brotestanaidd.

Sleid 4 – Dyma'r ddogfen lawn

- O ba ddeunydd y gwnaed y ddogfen?

Mae'r deunydd hwn wedi ei wneud o ddeunydd a elwir yn femrwn, a oedd yn cael ei ddefnyddio cyn i bapur gael ei ddyfeisio.

- A ydych yn gwybod o beth y mae memrwn wedi ei wneud?

Mae memrwn wedi ei wneud o groen anifail, gan amlaf gafr neu ddafad.

- Ym mha iaith yr ysgrifennwyd hi?

Mae'r ddogfen wedi ei ysgrifennu yn Lladin, sef iaith swyddogol llywodraeth a'r gyfraith yn y cyfnod Tuduraidd.

Mae darluniad o Harri wedi ei wneud yn H cyntaf ei enw Henricus, sef y lladin am Harri.

Sleid 5 - Dyma bortread o Harri VIII. Gallwch gymharu hwn â'r darluniad ar y ddogfen a gweld fod y tebygrwydd yn eithaf da.

- Beth sydd ar waelod y ddogfen?

Sleid 6 - Mae sêl ar waelod y ddogfen

- A ydych yn gwybod pam eu bod nhw'n rhoi sêl ar ddogfennau?

Mae'n dangos fod y brenin yn cymeradwyo'r ddogfen ac fe'i defnyddiwyd i ddilysu'r ddogfen. Roeddent weithiau yn cael eu defnyddio yn lle llofnod. Roedden nhw hefyd

yn gallu cael eu defnyddio i selio dogfen neu lythyr am resymau diogelwch; pe byddai unrhyw un yn agor y ddogfen byddai'r sêl wedi ei thorri.

Yn yr achos hwn mae'r sêl wedi ei gysylltu â gwaelod y ddogfen gydag edefyn sidan plethedig. Caiff ei alw yn sêl crogdllws. Mae gan sêl crogdllws ddwy ochr.

- Beth mae'r sêl yn ei ddangos?

Ar un ochr fe welwn y Brenin ar yr orsedd yn dal y gronnell a'r deyrnwialen; mae'r ochr arall yn ei ddangos yn mynd ar ei geffyl i'r frwydr. Nod cynllun y sêl oedd ei ddangos fel Brenin pwerus.

Mae i seliau crogdllws ddwy ochr ac mae hon yn un arbennig. Fe'i gelwir hi yn y sêl fawr, sef y sêl a ddefnyddir gan frenhinoedd a breninesau. Roedd sêl newydd yn cael ei gwneud ar gyfer pob teyrnasiad newydd a'r hen rai yn cael eu malu a'u difa unwaith i deyrnasiad ddod i ben. Byddai'n cael ei wneud o fowld a elwid yn 'matrices'. Roedd y sêl fawr yn cael ei gwarchod gan y Canghellor.

- A ydych yn gwybod o beth y mae sêl wedi ei wneud?

Fel rheol mae selau wedi eu gwneud o gwyr gwenyn. Byddai'r cwyr yn cael ei arllwys i'r matrices.

- Mae selau yn aml ar goll o ddogfennau. Pam tybed?

Maent yn fregus ac mae'r cwyr yn breuo wrth iddo heneiddio. Maent yn aml yn torri ac yn syrthio i ffwrdd.

Mae sêl fawr Harri VIII yn darllen fel hyn: Harri'r Wythfed, trwy ras Duw, o Loegr a Ffrainc ac Iwerddon Brenin, Amddiffynnwr y Ffydd, ac ar y Ddaear, Eglwys Loegr ac Eglwys Iwerddon, y Pen Goruchaf.

- Beth yw'r peth enwocaf a gofiwn am Harri VIII?

Ei chwe gwraig

- A allwch chi eu henwi nhw a'r hyn a ddigwyddodd iddynt?

Ysgarwyd, dienyddiwyd, marw, ysgarwyd, dienyddiwyd, goroesi

All boys should come home please

Aragon (Catherine o Aragon)

Boleyn (Anne Boleyn)

Seymour (Jane Seymour)

Cleves (Anne o Cleves)

Howard (Catherine Howard)

Parr (Catherine Parr)

- A allwch chi enwi Brenin neu Frenhines Tuduraidd enwog arall?

Sleid 7 – Dyma bortread o Elisabeth I

- Beth wyddoch chi am Elisabeth I?

Roedd hi'n ferch i Harri VIII ac Anne Boleyn ac fe'i ganed hi ym 1533.

- Ydych chi'n gwybod beth ddigwyddodd i'w mam?

Dienyddiwyd Anne Boleyn pan oedd Elisabeth ond yn 2 oed ac 8 mis oed. Cafodd Elisabeth blentyndod anodd, gan gael ei charcharu un tro yn Nhŵr Llundain. Ond, pan fu farw hanner chwaer iddi, Mari ym 1558, daeth yn Frenhines yn 25 oed.

Mae llawer o haneswyr o'r farn ei bod hi yn un o'r breninesau mawr.

Un o ddigwyddiadau mwyaf dramatig ei theyrnasiad oedd trechu Armada Sbaen ym 1588, pan lwyddodd ei lluoedd i gadw ei theyrnas rhag goresgyniad. Roedd hefyd yn gyfnod o fforio pan fu anturwyr fel Syr Francis Drake a Syr Walter Raleigh yn hwylio o amgylch y byd i ddod o hyd i lwybrau masnach newydd i gynyddu cyfoeth y deyrnas. Roedd byd theatr yn ffynnu a dechreuodd William Shakespeare ysgrifennu ei ddramâu.

Sleid 8 – Dyma ddogfen o 12 Mehefin 1600, tua diwedd teyrnasiad Elisabeth. Yn y ddogfen mae hi'n cadarnhau grymoedd penodol i Fwrdeisiaid Caerdydd. Rhain oedd y bobl oedd yn rhedeg y dref bryd hynny.

O femrwn y gwnaed y ddogfen hon. Mae'n dangos llawer o ôl traul ac mae rhywun wedi ysgrifennu arno mewn beiro! Mae ynddo hefyd dyllau pinnau bawd.

Nid yw mor addurniadol â'r un ar gyfer Harri VIII. Nid oes portread o'r Frenhines yn llythyren gyntaf ei henw.

Sleid 9 Ond mae'r sêl fawr wedi ei chysylltu â'r ddogfen. Ar y ddogfen hon mae'r sêl wedi treulio yn arw ac er y gallwn weld Elisabeth yn eistedd ar ei gorsedd, mae ei hwyneb wedi ei rwbio i ffwrdd. Atgyweiriwyd y sêl ym 1890.

Sleid 10 – Mae sêl fawr arall o Elisabeth I gennym ac ar un ochr dangosir hi ar gefn ceffyl, yn marchogaeth wysg ei hochr. Mae'r ysgrifen o amgylch y sêl yn dweud:

Elisabeth, trwy ras Duw, o Loegr, Ffrainc ac Iwerddon, Brenhines, Amddiffynnwr y Ffydd.

Bu farw Elisabeth yn 1603 yn 69 oed. Wnaeth hi erioed briodi ac ni chafodd blant. Hi oedd yr olaf o linach frenhinol y Tuduriaid.

- A ydych chi'n gwybod pwy ddaeth i'r orsedd wedi i Elisabeth farw?

Y Stiwartiaid

Y Stiwartiaid (sleidiau 11-19)

- Pwy oedd y Stiwartiaid?

Gan nad oedd gan Elisabeth blant trosglwyddodd y goron i'w chefnider o bell, Iago VI o'r Alban, a ddaeth yn Iago I o Loegr.

Teyrnasodd y Stiwartiaid o 1603 hyd 1714 ac fe gafwyd saith Brenin a Brenhines Stiwartiaid yn y cyfnod hwn. Fel y Tuduriaid fe deyrnason nhw dros rai o'r cyfnodau mwyaf helbulus yn hanes y deyrnas.

Sleid 11 – Dyma bortread o Siarl I.

- Ydych chi'n gwybod beth ddigwyddodd i Siarl I, a ddaeth yn Frenin yn 1625 wedi i Iago I farw?

Dienyddiwyd ef yn 1649.

Yn ystod 1640 roedd y wlad mewn cythrwfl. Roedd Siarl I am deyrnasu gyda grym absoliwt a gwrthododd wrando ar y Senedd. Teyrnasodd am unarddeg o flynyddoedd heb alw'r Senedd a gwnaeth lawer o bethau amhoblogaidd fel gosod trethi. Gwaethygodd pethau rhwng y Brenin a'r Senedd gan arwain at Rhyfel Cartref.

- Pwy oedd y ddwy ochr fu'n ymladd yn erbyn ei gilydd yn ystod y Rhyfel Cartref?

Ar un ochr roedd y Brenhinwyr, oedd hefyd yn cael eu hadnabod fel y Cafaliriaid, a oedd yn cefnogi'r Brenin. Ar yr ochr arall roedd y Seneddwyr, neu'r Pengryniaid, a oedd yn cefnogi'r Senedd ac yn erbyn rhoi mwy o rym i'r Brenin.

Ymladdwyd y Rhyfel Cartref yn ystod y 1640au. Cafwyd brwydrau o amgylch Cymru, gan gynnwys Brwydr Sain Ffagan yn 1648.

- A ydych chi'n gwybod ymhle mae Sain Ffagan? A ydych chi wedi bod yno?

Mae Sain Ffagan bellach yn gartref i Amgueddfa Werin Cymru.

Roedd rhai milwyr seneddol heb gael eu talu am gyfnod hir iawn. Fe benderfynon nhw ymladd ar ochr y Brenhinwyr. Gyrrwyd sawl mil o filwyr seneddol i Dde Cymru i drechu'r gwrthryfel. Daeth i ben gyda buddugoliaeth i'r seneddwyr gyda dros 200 o filwyr wedi eu lladd a dros 3,000 wedi eu dal.

Sleid 12 – dyma llythyr a ysgrifennwyd gan Siarl I yn 1641/2 i Syr Henry Stradling, Capten llong y Bonaventure.

Teulu lleol oedd y Stradlingiaid a oedd yn byw yng Nghastell Sain Dunwyd ym Mro Morgannwg. Roedden nhw'n cefnogi'r Brenin. Ysgrifennodd Siarl I nifer o llythyron i Henry Stradling gan yrru gorchmynion ato.

- A alwch chi ddarllen y lawysgrifen yn y llythyr hwn? A allwch chi ddweud ym mha iaith y cafodd ei ysgrifennu?

Saesneg

- Sut gwyddom iddo gael ei ysgrifennu gan y Brenin?

Mae wedi ei lofnodi gyda Charles R. A ydych chi'n gwybod am beth y mae'r R yn sefyll? Rex, sef y Lladin am Frenin.

Sleid 13 – Dienyddiwyd Siarl I ym 1649 ac fe gymerodd Oliver Cromwell yr awenau dros y wlad yn lle'r Brenin. Roedd yn cael eu hadnabod fel yr Arglwydd Amddiffynnydd. Dyma bortread o Oliver Cromwell.

Sleid 14 – Dyma weithred sydd wedi ei dyddio yn 1651/2 lle mae'n rhoi tiroedd yn Abertawe (Orchard Close) i ddyn o'r enw Philip Jones.

- A allwch chi weld ei lofnod? Pwy oedd Philip Jones?

Sleid 15 – Dyma bortread o Philip Jones.

Cafodd y Cyrnol Philip Jones ei eni yn Abertawe tua 1618. Daeth yn bwysig iawn yn y Rhyfel Cartref, gan gefnogi'r Seneddwyr. Roedd yn Llywodraethwr ar Abertawe ac yn ddiweddarach ar Gaerdydd. Bu'n ymladd ym Mrwydr Sain Ffagan ym 1648. Daeth yn Rheolwr ar yr Osgorrd i Oliver Cromwell. Roedd yn AS dros Forgannwg.

Roedd yn gyfrifol am angladd Oliver Cromwell a fu farw ar 3 Medi 1658. Derbyniodd Oliver Cromwell angladd gwladwriaethol mawr.

Sleid 16 – Dyma 'fil deunyddiau' angladd Oliver Cromwell. Mae'n dangos cost y deunyddiau a brynwyd i wisgo'r galarwyr yn yr angladd ac i addurno'r ystafelloedd ar gyfer gorweddiad cyhoeddus Oliver Cromwell. Prynwyd dros 1,000 llath o frethyn am £1,573 11s 2c.

- Am beth mae'r s a'r c yn sefyll?

Sylltau a cheiniogau

- Faint o arian fyddai hyn heddiw?

Defnyddiwch y cyfrifiannell ar-lein i ganfod yr ateb

<http://www.nationalarchives.gov.uk/currency/>

Neu defnyddiwch yr hafaliad fod £1 yn 1658 werth £118 yn arian heddiw, felly cost y brethyn fyddai £185,614

Rhai o'r eitemau a brynwyd:

- Melfed du tair ceden am 31s y llath
- Melfed du dwy geden am 28s y llath
- Melfed porffor am 20s y llath
- 'Taffaty' moethus, gwyn, coch a glas am 14s y llath
- 'Sattine' moethus am 15s y llath
- 'Sarsnet' blodeuog am 10s y llath

- 'Tishew' euraid am 30s y llath

Sleid 17 - Dyma ddarlun o Oliver Cromwell yn ei orweddiad cyhoeddus. Fe'i claddwyd yn breifat cyn angladd y wladwriaeth felly yn yr angladd hwnnw defnyddiwyd corffddelw cwyr ohono'n gorwedd yn gyhoeddus. Yn ôl ei egwyddorion crefyddol angladd syml oedd ei ddymuniad. Serch hynny derbyniodd angladd gwladwriaethol moethus. Daeth Llundain gyfan i stop gyda gorymdaith anferth o alarwyr. Mae adroddiadau o'r cyfnod yn nodi ei fod yn gorwedd yn gyhoeddus mewn ystafelloedd wedi eu haddurno â melfed du a phorffor wedi eu brodio ag aur. Mae'r defnydd yma yn cael ei grybwyll ar y rhestr a brynwyd gan Philip Jones ar gyfer yr angladd.

- Beth oedd cyfanswm cost angladd Cromwell?

Cost angladd Oliver Cromwell oedd £60,000, sef £7.1m yn arian heddiw.

- A ydych yn gwybod beth ddigwyddodd yn 1660?

Sleid 18 – Adferwyd y Goron a daeth Siarl II, mab Siarl I yn Frenin. Dyma bortread o Siarl II.

Un o'n trysorau yw'r ddogfen yma o gyfnod Siarl II.

Sleid 19 – Dyma ddogfen a gaiff ei galw yn 'llythyrau patent'. Mae hyn yn golygu ei fod yn orchymyn gan y Brenin, fel rheol, yn penodi rhywun i wneud gwaith neu swydd arbennig. Yma mae'r brenin yn rhoi'r teitl Barwn Windsor i Thomas Windsor, neu Thomas Hickman. Ym 1862 fe'i gwnaed hefyd yn Iarll Plymouth. Roedd e a'i deulu yn berchen ar Gastell Sain Ffagan.

- Ar beth y mae wedi ei ysgrifennu?

Memrwn

- Pa symbolau rydych chi'n eu hadnabod o amgylch y llawysgrifen?
 - Cennin, cennin Pedr, tair pluen - mae'r rhain yn cynrychioli Cymru, ac mae'r tair pluen i'w gweld heddiw ar grysau rygbi Cymru.
 - Mae rhosynnau yn cynrychioli Lloegr ac i'w gweld heddiw ar grysau rygbi Lloegr
 - Mae'r ysgallen yn cynrychioli'r Alban ac i'w weld heddiw ar grysau rygbi'r Alban
 - Telynau, siamrogau – mae'r rhain yn cynrychioli Iwerddon, ac mae'r siamrog i'w weld heddiw ar grysau rygbi Iwerddon
- Mae'r lliwiau yn llachar o hyd. Pam hynny?

Mae wedi ei gadw allan o'r golau.

- A allwch chi ei ddarllen?

Mae wedi ei ysgrifennu yn Lladin. Defnyddiwyd Lladin ar gyfer dogfennau swyddogol yn y cyfnod hwn, nid Saesneg na Chymraeg.

- A oes rhywbeth ar goll o'r ddogfen?

Meddyliwch yn ôl i'r ddogfen ar Harri VIII y buom yn edrych arni. Beth oedd gan honno arni? (darlun o Harri VIII). Dylai portread o Siarl II fod wedi ei thynnu ar y ddogfen, y tu mewn i brif lythyren C ei enw sef Carolus Secundus.

- Pam gafodd ei dynnu oddi yno o bosibl?

Mae'n bosibl i rywun nad oedd yn cefnogi dychweliad y brenin rwbio ei wyneb i ffwrdd.

- Beth yw dyddiad y ddogfen?

Mae'r dyddiad wedi ei roi fel 1660. Mae'n dweud mai dyma 12ed blwyddyn teyrnasiad Siarl II. Nawr gan bod y Brenin yn ôl yn teyrnasu maen nhw wedi anwybyddu'r blynyddoedd pan na fu brenin ac wedi cario ymlaen o 1649 pan ddienyddiwyd Siarl I.

- Beth arall sydd ar goll?

Mae'r sêl fawr ar goll.

Bywyd Tuduraidd a Stiwartaidd (sleidiau 20-32)

Rydym wedi edrych ar ddogfennau sy'n dweud wrthym am y Brenhinoedd a'r Breninesau oedd yn teyrnasu. Nawr fe edrychwn ni ar rai dogfennau sy'n dweud rhywbeth wrthym am sut yr oedd pobl gyffredin yn byw eu bywydau bob dydd yn ystod y cyfnod Tuduraidd a Stiwartaidd.

- Pa ddogfennau rydych chi'n credu a fydd efallai yn dweud wrthym pa eiddo oedd gan bobl a pha gelfi oedden nhw'n berchen arnynt?

Os oedd person ym marw mae'n bosib iddynt adael ewyllys i ddweud i bwy roeddent yn dymuno gadael eu heiddo. Caiff rhestr o eiddo ei alw yn llechres. Dychmygwch pe byddai'n rhaid i chi ysgrifennu rhestr o bob eitem sydd gennych yn eich ystafell wely!

Sleid 20 – Dyma restr eiddo o tua 1663 sy'n rhestru eiddo Philip Jones, y daethom ar ei draws o'r blaen.

- A allwch chi ddarllen unrhyw un o'r eitemau?

Yn y parlwr mawr:

- un cowntsh o waith Twrcaidd (brethyn wedi ei wneud i edrych fel carped o Dwrci)
- Chwe chadair fawr

- Un bwrdd sgwâr

Yn y Neuadd:

- Dau fwrdd
- Unarddeg o gadeiriau pren

Yn y parlwr bach:

- Un gadair ledr fawr
- Un casyn pren ar gyfer cloc
- Rhai eitemau nad ydym yn dod ar eu traws heddiw: andirons (pâr o fariau llorweddol, fel arfer i'w gosod o boptu'r aelwyd i osod coed yn llosgi arnynt).

Yn yr ystafell fawr uwchlaw'r neuadd

- Dau wely, un cowtsh

Yn yr ystafell fechan ar ben y grisiau

- Un gwely
- dau blancyn
- cwpwrdd dillad

Yn y selar

- Tri stondin ar gyfer cwrw

Sleid 21 - Mae'r rhestr eiddo hwn o 1680 yn rhestru eiddo y byddai dyn yn ei gael mewn cegin a hefyd fwrdd a llieniau gwely.

- A allwch chi ddarllen unrhyw un o'r rhain? A allwch chi weld geiriau cyfarwydd?
 - Tywelion
 - Napcynau
 - Llawer o lieiniau wedi eu gwneud i ddeunyddiau gwahanol: Holland (lliain cain), cynfasau bras, llieniau o lin
 - Carthenni calico (dros y gwely)
 - 4 mazereen (platiau dwfn, fel arfer rhai metel)
 - 3 phlât pastai
 - 1 plât pastai
 - Llwyau pewter
- A ydych chi'n credu bod gan bobl yng nghyfnod y Tuduriaid a'r Stiwartiaid fwy neu lai o eiddo na ni heddiw?

Ni fyddai gan lawer unrhyw eiddo o gwbl i'w adael felly ni fyddai cofnod o'u bywydau hwn o gwbl.

- Sut gwyddom ni beth oedd pobl Duduraidd yn ei wisgo?

Mae'n anodd canfod yr hyn oedd pobl yn ei wisgo gan nad oedd unrhyw ffotograffau.

Roedd pobl gyfoethog weithiau yn cael eu lluniau wedi eu portreadu.

Sleid 22 - Weithiau mae dogfennau yn nodi'r hyn oedd pobl yn ei wisgo. Mae hwn yn dderbynneb ar gyfer eitemau dillad a brynwyd ar ddechrau'r G17. Mae'n nodi Quafe a chlwtyn talcen. Penwisg neu gap oedd 'coiff'. Roedd hwn i'w wisgo yn dynn o amgylch y pen a thros y gwallt.

Sleid 23 – Yma ar y chwith mae coiff wedi ei frodio a chlwt talcen. Byddai'r rhan fwyaf o wragedd gweithio wedi gwisgo rhai plaen fel yr un ar y dde.

Mae'r dderbynneb hefyd yn nodi Bootehosetoppes

Sanau lliain yw *Boothose* neu i leinio bŵts yn y G17 i arbed hosanau cain wedi eu gwau rhag treulio. Yn y 1630au gellid trimio *boothose* ag ymylon les wedi eu troi lawr dros bŵts top bwced â chyffiau. Fuon nhw ddim yn ffasiynol am yn hir iawn.

Mae hefyd yn rhestru Ryffes a llinynnau Band

Yn aml ychwanegid ryff i gyff llawes dilledyn neu ei glymu am y gwddf. Rhoddwyd llinynnau neu lês, a elwid yn Llinynnau Band i agoriad ryff Tuduraidd ac a glymwyd ynghyd i glymu'r ryff neu fandyn torchog o amgylch y gwddf.

Sleid 24 – Dyma Elisabeth I yn gwisgo ryff

Yn ystod y cyfnod Tuduraidd a Stiwardaidd canfu teuluoedd ddulliau o ddangos pa mor bwysig oeddent. Un dull oedd dangos eich bod yn gallu olrhain achau eich teulu yn ôl sawl cenhedlaeth. Byddent yn llunio coeden deuluol. Gelwid hwy yn 'cart achau'. Ceisiodd llawer ddweud y gallent olrhain eu hachau yn ôl i Dywysogion Cymru, weithiau i Adda ac Efa a Duw.

Sleid 25 - Dyma gart achau teulu'r Gwynn o Lansannor a luniwyd oddeutu 1615. Byddai llunio hwn wedi costio llawer o arian. Mae arfbais wedi ei dynnu ar y rholyn

- Pam gredwch chi fod y lliwiau yn parhau yn llachar hyd heddiw?

Mae wedi ei gadw yn y tywyllwch felly nid yw wedi pylu

- Sut gwyddom ni beth oedd pobl Duduraidd yn ei fwyta?

Defnyddiai pobl Duduraidd lyfrau rysâit fel ni, ac mae ambell lyfr rysâit o'r cyfnod Tuduraidd wedi goroesi.

Sleid 26 – Dyma dudalen o lyfr rysâit a ysgrifennwyd yn y G17. Mae'n cynnwys amrywiaeth o rysetiau coginio a rysetiau meddyginiaethol. Ni wyddom pwy yw awdur y rysetiau.

- Beth fyddech chi'n ei wneud os byddech yn sâl mewn amseroedd Tuduraidd a Stiwardaidd?

Defnyddid perlyisiau a phlanhigion i wella pobl, ac mae llawer o'r rysetiau ar gyfer meddyginiaethau. Dim ond tua 35 o flynyddoedd oedd disgwyliad oes yn y cyfnod

hwn. Doedd dim meddygon na GIG felly roedd yn rhaid i bobl ddibynnu ar driniaethau a wnaed gan ddefnyddio perlysiâu a phlanhigion.

Mae'r llyfr yn rhoi rysetiau ar gyfer:

- y 'peswch'
- llyngyr
- 'cosi'
- Cleisiau
- poen yn y bol
- gwneud i wallt dyfu
- trin brathiad neidr
- i waredu gwynt o'r bledren!

O dro i dro roeddent yn defnyddio anifeiliaid byw yn y rysetiau. I wneud olew o wenoliaid roedd yn rhaid canfod 20 gwennol fyw. Roedd rhai rysetiau yn defnyddio mwydod yr ardd.

Mae ynddo hefyd rysetiau melys a chacennau megis rhai almon, lemon ac oren.

Mae yna rysetiau i biclo, sychu a siwgro ffrwythau.

- Pam fod rhaid iddynt gadw bwydydd?

Doedd dim modd ganddynt i rewi felly roedd yn rhaid cadw ffrwythau a llysiâu i'w hatal rhag pydru. Roeddent yn eu cadw drwy wneud marmalêd a jam, piclo llysiâu a defnyddio halen a siwgr.

- Edrychwch ar y rhestr yma o gynhwysion. A allwch chi ddyfalu beth maen nhw'n ei wneud? Beth oedd e i fod i'w wella?

Sleid 26 – ar gyfer perl llygad (cataract)

Cymerwch falwod cyffredin o'r ardd, priciwch hwy â nodwydd, cymerwch yr olew a'i ddiferu fesul dropyn ar y tro ar y llygad sydd â'r perl ynddi.

Ar gyfer gwaedlyn trwyn

Cymerwch fwsog o fonyn gwreiddyn hen goeden onnen. Gwthiwch i ffroen y sawl sydd yn gwaedu a bydd yn helpu. Helpodd fi pan oeddwn oddeutu 14 oed pan oeddwn wedi gwaedu am bedwar diwrnod o'r bron yn ddi-dor.

Sleid 27 – I wau asgwrn mewn 6 diwrnod

Cymerwch gynffonau oddi ar ganghennau coed cyll a hadau dail tafol cochion, sychwch hwy a gadewch i'r claf yfed y powdr mewn olew neu fel arall a bydd yn gyfan drachefn.

Ar gyfer cosi

Cymerwch lwmp o fenyn cymaint ag afal, brwmstan ddigon i lenwi cneuen Ffrengig, llwyaid o finegr, cymysgwch nhw ac yna eneiwch y claf yn erbyn y tân.

Sleid 28 – i wneud eli ar gyfer sgald neu losg

Cymerwch chwarter pwys o siwed dafad neu ymysgaroedd y ddafad gan ei fod cystal â deubwys a chwarter o fenyn ffres, yna cymerwch lond llaw o faw defaid a llond dwrn o bersli a phen un neu ddwy genhinen, pwniwch y cyfan ynghyd ac yna wedi eu powndio'n dda gosodwch hwy ar y tân a gadel iddo ferwi tan iddo droi yn wyrdd, yna straeniwch a'i roi yn y pot cegin a'i gadw at eich defnydd.

Byddai'r rhan fwyaf o bobl yn y cyfnod hwn wedi byw yn y wlad a gwneud bywoliaeth o'r tir.

Sleid 29 - dyma restr eiddo o 1686 sy'n rhestru offer ffermio ac anifeiliaid

- A allwch chi ddarllen unrhyw un o'r eitemau? Pa anifeiliaid y gallwch eu hadnabod?
 - Un deg saith o wartheg pesgi
 - Wyth ych i weithio
 - Dau ddeg wyth buwch odro a heffrod a dau darw
 - Deuddeg llo
 - 134 dafad o bob math
 - Chwe deg tri oen
 - Unarddeg o feirch o bob math
 - Moch a dofednod
 - Yd yn yr ydlan
 - Barlys
 - Ffa yn y ddaear
 - Ceirch
 - Menyn, caws ac offer y llaethdy
 - Cyfrwyau, ffrwynau ac anghenion eraill yn y stablau

Ond roedd trefi yn tyfu a diwydiant yn dechrau magu gwreiddiau.

Sleid 30 – dyma set o gyfrifon ar gyfer 1686 i 1687

- Beth ydych chi'n credu oedden nhw yn ei wneud? A allwch chi ddarllen unrhyw un o'r geiriau?
 - Arian ar gyfer gwaith glo
 - Talwyd i'r gweithwyr
 - Talwyd ar gyfer creu lle i osod y glo
 - Talwyd am raw
 - Talwyd am 'shw's' i'r gert
 - Talwyd am lifio planciau
 - Rhaffau
 - Bwced
 - Canhwyllau a llenwi'r pydew

Roedd y rhain yn rhai o'r glowyr cynharaf

- Rydym wedi cael cip ar lawer o ddogfennau Beth sylwch chi am y llawysgrifen?

Mae'n anodd ei ddarllen

- Ym mha ffordd y mae'n wahanol i'n llawysgrifen ni?

Roedd llawysgrifen yn y cyfnod Tuduraidd a Stiwartaidd yn cael ei alw yn Law Ysgrifennydd. Roedd yn cael ei ddefnyddio yn ystod y G16 a G17. Gallwch ddarllen a deall rhai o'r geiriau a'r llythrennau, ond mae eraill yn edrych yn wahanol i'r rhai a ysgrifennwn ni heddiw.

Sleidiau 31-32 Dyma'r wyddor yn ôl llaw'r Ysgrifennydd

- Pa lythrennau sydd yn edrych yn debyg?

Mae B fawr yn edrych yn debyg i'n un ni

- Pa lythrennau sydd yn edrych yn wahanol?

Mae c yn edrych fel r. R yn edrych fel w. Mae C fawr yn cael ei adnabod fel 'bynsen groes' gan fod croes drwyddo ac mae'n edrych fel y fynsen!

- A oes unrhyw lythrennau ar goll?

Allwch chi weld fod 'j' ar goll o'r llythrennau bach. Roedd hwn yn aml yn cael ei ysgrifennu fel 'i' e.e. byddai jwg yn iwg.

- Allwch chi ysgrifennu eich enw yn llaw'r Ysgrifennydd?

Defnyddiwch bapur lliw memrwn a chopiwch o wyddorau llaw'r Ysgrifennydd

Syniadau sesiwn drafod:

- Beth yw'r peth mwyaf diddorol rydych chi wedi'i ddysgu?
- Beth yw'r tri gair pwysicaf o'r gweithgaredd hwn?
- Beth hoffech chi ddysgu mwy amdano?

Gweithgaredd posib yn seiliedig ar y gweithdy hwn:

- Ysgrifennwch restr eiddo o'ch eiddo personol
- Dyluniwch boster i annog pobl i ymladd dros neu yn erbyn y Brenin – ceisiwch ddefnyddio geiriau sy'n dwyn perswâd ar bobl!
- Dyluniwch eich 'sêl fawr' i'w gysylltu â'ch dogfennau pwysig
- Holwch yr Archif am rysetiau Tuduraidd a Stiwartaidd a cheisiwch goginio eich bwyd Tuduraidd a Stiwartaidd eich hun